## GWEITHIO DROS GYMRU

## Adroddiad Prif Weinidog Cymru 2005-06

Croeso i'm hadroddiad ar y cynnydd rydym yn ei wneud o ran creu Cymru gynaliadwy a ffyniannus.

Rydym bellach dri chwarter o'r ffordd drwy ail dymor y Cynulliad ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wella iechyd, cael mwy o swyddi a gwell swyddi a sgiliau a sicrhau bod ein cymunedau yn gryf ac yn ddiogel.

### Uchafbwyntiau'r Flwyddyn

**Triniaeth gyflymach mewn ysbyty**. Yr addewid a wnaethom oedd mai 12 mis fyddai uchafswm yr amser aros ar gyfer triniaethau cleifion allanol a chleifion mewnol erbyn 31 Mawrth 2006. Ar 31 Mawrth 2006, nid oedd unrhyw gleifion o gwbl yn aros mwy na 12 mis yn y naill gategori na'r llall yn unrhyw un o Ymddiriedolaethau Cymru. Gellir cymharu hyn â'r 824 a oedd yn aros dros 12 mis am lawdriniaethau fel cleifion mewnol a dros 13,800 a oedd yn aros dros 12 mis am ymgynghoriadau fel cleifion allanol ar 31 Mawrth 2005. Mae hynny yn rhoi syniad i chi o gyfradd y gwelliant.

Rwyf yn llongyfarch y meddygon, y nyrsys a'r staff cymorth hynny sy'n gweithio'n galed yng ngwasanaeth iechyd Cymru sydd wedi helpu i gyflawni'r llwyddiant hwn, ac edrychaf ymlaen at gyflwyno adroddiad ar ostyngiadau pellach mewn amseroedd aros erbyn 31 Mawrth 2007, pan mai wyth mis fydd uchafswm yr amseroedd aros ar gyfer cleifion mewnol a chleifion allanol.

Wrth gwrs, nid yw'r mwyafrif helaeth o gleifion yn aros am 12 mis o bell ffordd. Mae tua hanner yr holl gleifion mewnol a'r cleifion allanol ar restrau am lai na thri mis. Mae tua 8 o bob 10 o bobl ar y rhestrau am lai na chwe mis. Mae'r mesur o brofiad cleifion ar restrau aros hefyd wedi bod yn symud i'r cyfeiriad cywir yn raddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

**Saith mlynedd arall o Gyllid Ewropeaidd.** Daerh Llywyddiaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd â budd ychwanegol gwirioneddol i Gymru, pan ddaeth y trafodaethau ar y cylch nesaf o gyllid Ewropeaidd ar gyfer y cyfnod 2007 - 2013 i ben yn llwyddiannus fis Rhagfyr diwethaf. Bydd Cymru, ac yn arbennig y ddwy ran o dair o Gymru yn y Gorllewin a'r Cymoedd yn parhau i elwa ar y £1.3 biliwn o arian sydd ei angen arnom i barhau â'r gwaith o drawsnewid ein heconomi. O gofio bod diweithdra yn 7.7% pan ddaeth y Cynulliad i fodolaeth, a'i fod bellach i lawr i 4.7%, mae'n amlwg bod Cymru wedi gwneud yn well na rhannau eraill o'r DU dros y blynyddoedd diwethaf. Ond mae gwaith mawr o'n blaenau o hyd o ran lledaenu'r ffyniant hwnnw i bob rhan o'n gwlad. Mae gennym bellach lwyfan sicr o arian Ewropeaidd i'n helpu i orffen y gwaith trawsnewid economaidd a chymdeithasol.

**Rhaglen uno lwyddiannus.** Mae gwella darpariaeth gwasanaeth yn allweddol i'n datblygiad parhaus. Eleni, unwyd Awdurdod Datblygu Cymru,

Bwrdd Croeso Cymru, ELWa ac ACCAC gyda'r adrannau sy'n eu noddi o fewn Llywodraeth y Cynulliad felly gallwn weithio'n fwy effeithiol i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau yr ydych chi, y cwsmeriaid, am eu cael ac sydd eu hangen arnoch. Bydd yn cynnig symlrwydd, llai o fiwrocratiaeth ac atebolrwydd democrataidd cliriach.

Mae **Adeilad newydd y Cynulliad** a agorwyd ar 1af Mawrth, yn arloesol ym maes dylunio ac adeiladu cynaliadwy gan ddefnyddio systemau ynni adnewyddol i leihau costau cynnal hyd at eu hanner. Mae'r adeilad wedi ennill nifer o wobrau gan gynnwys gwobr uchaf y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) am adeiladu cynaliadwy, Gwobr Cynaliadwyedd RICS Cymru 2006, a Gwobr Eiddo'r Variety Club am Ddatblygiad Mwyaf Neilltuol 2006

**Taliadau Presgripsiynau.** Rydym ar y trywydd cywir i ddiddymu taliadau presgripsiynau erbyn mis Ebrill 2007. Ym mis Ebrill eleni, cawsant eu gostwng i ddim ond £3.

Mae **Mesur Llywodraeth Cymru** dros hanner ffordd drwy'r broses ystyriaeth Seneddol. Pan ddaw'r Mesur yn Ddeddf, bydd yn gwella yn sylweddol ein gallu i greu deddfwriaeth yng Nghymru i ddarparu gwell gwasanaethau yng Nghymru.

## Yn Nes at Bobl

Rydym yn gwneud y Llywodraeth yn fwy hygyrch i fwy o bobl Cymru, drwy adleoli nifer sylweddol o'n swyddi gwasanaeth sifil y tu allan i Gaerdydd. Bydd ein swyddfa ym Merthyr Tudful yn agor yn ystod yr hydref hwn. Dilynir hyn gan swyddfeydd yn y Gogledd yng Nghyffordd Llandudno a'r Canolbarth yn Aberystwyth yn 2007-08.

Efallai i chi gael cyfle i weld yn bersonol beth a wnawn drwy ymweld â'n trelar arddangos mewn un o'r 22 o ddigwyddiadau lleol a gynhaliwyd gennym ledled Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Efallai hefyd i chi gael cyfle i ofyn cwestiynau'n uniongyrchol i'r Cabinet llawn yn ystod y pedair sesiwn Hawl i Holi a gynhaliwyd yn y Drenewydd, Casnewydd, Bangor a Wrecsam. Mae hyn yn dangos arloesedd unigryw o ran llywodraeth agored a democratiaeth uniongyrchol o leiaf o gymharu â llywodraethau yn Ewrop.

Rydym wedi gwella ein gwefan eleni, ac mae'r nodweddion mynediad gwell yn golygu y gall mwy o bobl gael gwybod am ein cyflawniadau a'r gwasanaethau a gaiff eu cynnig gennym drwy'r Rhyngrwyd

Mae'r ffordd rydym yn gweithio yr un mor bwysig â'r gwaith a wnawn, a chaiff ein Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Adrannol eu hategu gan gynlluniau tebyg ar gyfer Anabledd a Rhyw er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried anghenion holl bobl Cymru.

## Cyflawniadau

Rhai o'n prif gyflawniadau:

- Erbyn mis Medi 2005, roedd 572 yn fwy o nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd a 144 yn fwy o feddygon a deintyddion na'r nifer 12 mis cyn hynny.
- Erbyn hyn, mae'r amseroedd aros yn llai nag erioed ar gyfer cleifion mewn adrannau damweiniau ac achosion brys.
- Crëwyd 206,000 o leoedd ychwanegol i gleifion y GIG gennym eleni o ganlyniad i raglen beilot practisau Gwasanaethau Deintyddol Personol (PDS).

- Dengys y ffigurau diweddaraf bod incwm cartrefi y pen wedi cynyddu 25.6% yng Nghymru ers datganoli, yn gyflymach na gweddill y DU gyfan sy'n 23%. Mae Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario y pen yng Nghymru bellach ar ei lefel uchaf ers 1996, o'i gymharu â chyfartaledd y DU.
- Mae cyfartaledd enillion wythnosol crynswth oedolion llawn amser yng Nghymru wedi codi 19% ers mis Ebrill 2001, o'i gymharu â chynnydd o 17% ar draws y DU gyfan.
- Roedd cyfartaledd enillion llawn amser Gorllewin Cymru a'r Cymoedd i fyny 21% yn 2005 o gymharu â 2001, sy'n uwch na'r cynnydd ar gyfer Cymru a'r DU gyfan.
- Dengys y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd mai dim ond yng Nghymru allan o'r gwledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr y bu cynnydd canrannol uwch mewn cyflogaeth yn y sector preifat na chyflogaeth yn y sector cyhoeddus.

- Ymrwymwyd £310 miliwn mewn cronfeydd strwythurol i 429 o brosiectau yn 2005.
- Ailagorwyd gwasanaethau teithwyr allweddol gennym ar reilffordd Bro Morgannwg, dros 40 mlynedd wedi iddi gael ei chau fel rhan o doriadau Beeching.
- Mae 108 o brosiectau llwybrau diogel i'r ysgol ar waith.

- Ym mis Medi 2005 cyflwynwyd grant o £85 gennym i ddisgyblion cymwys sydd ar fin dechrau ym Mlwyddyn 7 tuag at gostau prynu gwisg ysgol.
- Cynnydd o ychydig dros 100 o athrawon newydd ac ychydig dros 1200 o staff cymorth ysgolion newydd yn ystod 2004-05.
- Mae canlyniadau ein hysgolion yn gwella. Cyflawnodd 74% o ddisgyblion 11 oed y lefelau disgwyliedig ar gyfer y pynciau craidd cyfun a chyflawnodd 52% o ddisgyblion 15 oed 5 TGAU gradd A* i C neu fwy yn ystod blwyddyn academaidd 2004/05.

- Cyflawnodd awdurdodau lleol ledled Cymru darged ailgylchu a chompostio cyfun o 19.4% yn 2004-05, sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer.

- Erbyn y dyddiad hwnnw roedd dau awdurdod lleol yn ailgylchu a chompostio dros 25% o'u gwastraff - Casnewydd a Chaerffili - ac roedd dau yn ailgylchu a chompostio dros 30% o'u gwastraff - Ceredigion a Phowys.

- Mae £10 miliwn mewn cyllid ychwanegol wedi cael ei ddyrannu ar gyfer 2006-07 ar gyfer tai gyda Gofal Ychwanegol ar gyfer pobl hŷn.
- Mae £5 miliwn wedi cael ei ddyrannu ar gyfer 2006-07 i leddfu tlodi tanwydd drwy osod systemau gwresogi yng nghartrefi'r henoed a'u hinsiwleiddio.

- Yn 2005 dyblwyd nifer y bobl ifanc 16 oed neu'n iau sy'n mynd i nofio yn ystod gwyliau haf yr ysgol a chynyddwyd nifer y nofwyr newydd 60 oed a hŷn 20% gan y fenter Nofio am Ddim.
- Mae 344,000 o bobl wedi mwynhau opera, sioeau cerdd a bale yn ystod blwyddyn gyntaf Canolfan Mileniwm Cymru.
- Ymwelodd dros 1.1 miliwn o bobl ag arddangosfeydd celf ledled Cymru yn ystod 2005.

- Rhoddwyd cymorth i weithgareddau ymhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gan gyflawni £20 miliwn o arbedion drwy ddulliau caffael gwell.
- Lansiwyd *Cysylltu dros Gymru* drwy'r rhaglen *Rheoli yng Nghwasanaeth Cyhoeddus Cymru* – sef rhaglen ddatblygu ar raddfa fawr i wella'r ddarpariaeth gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

**Ein Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol**

- Diddymu taliadau presgripsiynau'n llwyr erbyn mis Ebrill 2007.
- Penodi'r Comisiynydd cyntaf ar gyfer Pobl Hŷn yn y DU.
- Derbyn 300 o fyfyrwyr meddygol a 64 o fyfyrwyr deintyddol gyda chyfanswm o 1516 o fyfyrwyr meddygol a 305 o fyfyrwyr deintyddol yn hyfforddi yng Nghymru. Dengys y ffigurau diweddaraf bod hyn yn gyfwerth â chynnydd o 54% ers dechrau'r Cynulliad.

- Buddsoddi £3 miliwn dros y tair blynedd nesaf o 2006-07 er mwyn gwella'r amgylchedd lleol - i fynd i'r afael â sbwriel, cŵn yn baeddu, tipio anghyfreithlon, graffiti a llygredd yn ymwneud â sŵn.

- Cyflwyno gwasanaeth awyr newydd o Gaerdydd i faes awyr yr awyrlu yn y Fali ar Ynys Môn.
- Ailagor gwasanaethau teithwyr ar reilffordd Glynebwy dros y 12 mis nesaf.

- Sicrhau bod £3.8 miliwn ar gael o dan y cynllun *Llwybrau Diogel i'r Ysgol* ar gyfer 2006 -07 a fydd yn galluogi 50 o gynlluniau ychwanegol i gael eu datblygu.
- Yn 2006-07 bydd *Grantiau Tai Cymdeithasol* yn anelu at ddarparu 1,000 o dai ychwanegol i'w rhentu neu i'w prynu am gost isel, ac oddeutu 220 o

fflatiau *Gofal Ychwanegol* ar gyfer pobl hŷn.

- Cynnal 250 o unedau camddefnyddio sylweddau/troseddwyr ifanc drwy'r cynllun *Grant Refeniw Tai â Chymorth* sydd gennym ar waith.
- Darparu cyllid ar gyfer 544 o brosiectau *Cefnogi Pobl,* a fydd yn darparu 6,843 o unedau cymorth drwy gydol 2006-07.

- Ein nod yw cynyddu cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol gyda'r bwriad o gael 100,000 o blant i gymryd rhan mewn clybiau ysgol erbyn mis Mawrth 2007 ac 20,000 o oedolion i gymryd rhan mewn cyfleoedd cyfranogi newydd i oedolion erbyn mis Mawrth 2008.
- Buddsoddi bron £4 miliwn rhwng 2004 a 2008, i wella sgiliau hyfforddi chwaraeon yng Nghymru, gan anelu at 5,000 o hyfforddwyr chwaraeon newydd bob blwyddyn.
- Parhau i hybu'r iaith Gymraeg, gan gynyddu'r galw am wersi Cymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni ledled Cymru.

- Ein nod yw sicrhau y caiff cymalau budd cymunedol eu cynnwys mewn contractau adeiladu ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru er mwyn creu rhwng 500 a 2,,000 o swyddi ar gyfer y rhai a fu'n economaidd anweithgar am gyfnod hir.
- Gan weithio gyda phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus, bydd Gwerth Cymru yn cyflawni arbedion o £30 miliwn drwy wella caffael a chyflawni'r amcanion effeithlonrwydd a gwelliant pellach o dan y rhaglen *Creu'r Cysylltiadau*.